

1

## Mae'r gyfraith yng Nghymru wedi newid

Ar 21 Mawrth 2022, ymunodd Cymru â mwy na 60 o genhedloedd ar draws y byd sydd wedi gwahardd cosbi corfforol tuag at blant.

Nod cyffredinol Deddf Plant (Diddymu Amddiffyniad Cosb Resymol) (Cymru) 2020 yw helpu i amddiffyn hawliau plant a rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i bob plentyn yng Nghymru.



## Stopio Cosbi Corfforol yng Nghymru – Cyfrol Rhif 2

2

## Sut mae'r gyfraith wedi newid yng Nghymru?

Nid yw'r gyfraith newydd yn creu trosedd newydd, yn hytrach mae wedi dileu amddiffyniad cyfreithiol 160 mlwydd oed – yr amddiffyniad cosb resymol – fel na all gael ei ddefnyddio gan unrhyw un sy'n cael eu cyhuddo o ymosodiad cyffredin yn erbyn plentyn.

Dros y blynyddoedd mae deddfwriaeth wedi cyfyngu ar yr amgylchiadau lle gellid defnyddio'r amddiffyniad, ac wedi cyfyngu ar y lleoliadau lle gellir cosbi plant yn gorfforol. Mae cosb gorfforol wedi'i gwahardd ers amser mewn ysgolion, cartrefi plant, cartrefi gofal maeth awdurdodau lleol a lleoliadau gofal plant. Mae'r gyfraith newydd yn golygu ei bod hefyd wedi'i gwahardd mewn lleoliadau heb eu rheoleiddio, megis y cartref.

7

## Pa gefnogaeth sydd ar gael i blant a rhieni?

Mae'r ddeddf newydd yn rhan o becyn llawer ehangach o gymorth i blant a'u rhieni. Mae cymorth wedi'i dargedu drwy raglenni fel Dechrau'n Deg a Teuluoedd yn Gyntaf yn cynnig cymorth a chynghor rhianta ochr yn ochr â gwasanaethau cyffredinol a ddarperir gan, er enghraifft, fydwragedd, ymwelwyr iechyd, meddygon teulu ac awdurdodau lleol.

Mae gwefan [Maqu Plant. Rhowch amser iddo](#) yn adnodd ardderchog ar gyfer teuluoedd ac ymarferwyr. Ewch hefyd i weld dolenni [CYSUR](#), y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol, a gwefan [Stopio Cosbi Corfforol Llywodraeth Cymru](#) i gael mwy o wybodaeth.



3

## Beth yw cosb gorfforol?

Cosb gorfforol yw'r defnydd o rym corfforol i gosbi plentyn. Er mai smacio yw'r hyn sy'n dod i'r meddwl fel arfer, gall cosb gorfforol fod ar sawl ffurf gan gynnwys taro, slapio ac ysgwyd. Mae agweddau tuag at gosb gorfforol wedi newid gyda llai o rieni a gwarcheidwaid plant ifanc yng Nghymru yn cefnogi cosb gorfforol. Mae'r hyn a ystyriwyd yn iawn 30 mlynedd yn ôl yn llai derbyniol erbyn hyn.

Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP) yw'r sylfaen ar gyfer polisi Llywodraeth Cymru ar blant. Mae gwahardd cosb gorfforol i blant yn cyd-fynd ag erthygl 19 CCUHP, sef yr hawl i ddiogel rhag pob math o drais.

6

## Beth sydd angen i mi ei wneud?

Os ydych chi'n gweld rhywun yn cosbi plentyn yn gorfforol ac yn bryderus, cysylltwch â'ch adran gwasanaethau cymdeithasol lleol am gyngor.

Mae [Canllaw Ymarfer](#), i'w ddefnyddio ar y cyd â Gweithdrefnau Diogelu Cymru, yn rhoi rhagor o wybodaeth a chynghor am ymatebion diogelu mewn perthynas â'r Ddeddf.

Mae'r newid yn y gyfraith yn rhan o strategaeth tymor hwy yng Nghymru i newid agweddau at fagu plant a disgyblu plant drwy annog a hyrwyddo strategaethau cadarnhaol amgen.

Bydd yr holl achosion a adroddir yn parhau i gael eu hasesu o ran risg yn y ffordd arferol. Lle bo'n briodol, yn lle erlyniad, bydd rhieni'n cael cynnig cymorth drwy gynllun [cymorth rhianta y tu allan i'r llys](#) a ddarperir gan yr awdurdod lleol.

5

## Yr hyn nad yw'r gyfraith yn ei wneud

Nid yw'n creu trosedd newydd; nid yw'n gwneud mwy na dileu'r amddiffyniad cosb resymol i'r drosedd o ymosodiad cyffredin o dan y gyfraith gyffredin.

Nid yw'n atal rhieni rhag disgyblu eu plant – mae gwahaniaeth mawr rhwng disgyblu a chosbi'n gorfforol. Gall rhieni ddefnyddio dulliau eraill yn lle cosb gorfforol, fel ffordd o gynnal disgyblaeth a mynd i'r afael ag ymddygiad gwael.

Nid yw'n ymyrryd â gallu rhiant i fod yn rhiant – gall rhieni, wrth gwrs, ymyrryd yn gorfforol i gadw plentyn yn ddiogel rhag niwed, neu helpu â gweithgareddau dydd i ddydd, fel gwisgo neu hylendid a glendid.

4

## Beth mae'r gyfraith yn ei wneud

Mae wedi dileu'r amddiffyniad cosb resymol. Mae hyn yn golygu ei bod yn anghyfreithlon i gosbi plant yn gorfforol.

Mae'n rhoi'r un amddiffyniad cyfreithiol rhag ymosodiad i blant yng Nghymru ag oedolion.

Mae'n cael gwared ar fwllch cyfreithiol, sy'n golygu na all yr amddiffyniad cosb resymol gael ei ddefnyddio mwyach mewn lleoliadau heb eu rheoleiddio fel y cartref, a mannau dysgu, addoli, chwarae neu hamdden.

Mae'n dod ag eglurder, gan ei gwneud yn haws i blant, rhieni, gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd ddeall y gyfraith.



1

Empty yellow speech bubble for step 1.

2

Empty light blue speech bubble for step 2.

7

Empty purple speech bubble for step 7.

3

Empty orange speech bubble for step 3.

6

Empty pink speech bubble for step 6.

5

Empty white speech bubble for step 5.

4

Empty green speech bubble for step 4.

